**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth 21 Ionawr 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher 22 Ionawr 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher 29 Ionawr 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau 30 Ionawr 2025.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Derek Owen

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. tan 11:15 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir –**<br>• **26 Tachwedd 2024**<br>• **10 Rhagfyr 2024** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cyllideb Refeniw Drafft 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br><br>• **Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2025/26 o £195.234m.**<br>• **Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 8.85%, ynghyd â 0.65% i dalu'r Ardoll Tân yn rhoi cyfanswm o 9.50% gan fynd â thâl Band D i £1,721.70.**<br>• **Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ar 100%.**<br>• **Bod £2.000m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn mantoli cyllideb refeniw 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cynnig Cyllideb Refeniw ddrafft cychwynnol ar gyfer 2025/26.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r cynigion drafft ar gyfer y gyllideb refeniw allan i ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 yn cael ei phennu gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cartrefi'r Awdurdod Lleol i Bobl Hyn - Pennu'r Ffi Safonol 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Codi cost lawn ar gyfer gwasanaeth Cartrefi Preswyl, sef £983.86 yr wythnos yn 2025/26.**<br>• **Bod cost lawn ar gyfer y gwasanaeth Cartrefi EMI yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd, gan olygu fod cost lawn y gwasanaeth yn cael ei ostwng i £1,046.41 yr wythnos yn 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn pennu'r ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 yn unol â'r gofyn statudol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd Dafydd Roberts a ymadawodd â'r cyfarfod pan drafodwyd y mater** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br><br>• **Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.**<br>• **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal a amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad:**<br>  • **Haen 1 – bydd pawb yn talu £78.00 y chwarter** |

| | |
|---|---|
| | • **Haen 2 – bydd pawb yn talu £153.40 y chwarter**<br><br>• **Y taliadau Teleofal Blynyddol a amlinellir yn Atodiad B yr adroddiad:**<br>• **Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £142.50**<br>• **Gwasanaethau yn unig £91.50**<br>• **Costau gosod unwaith ac am byth £57.00**<br><br>• **Cyfradd o £16.80 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**<br><br>• **Gweithredu tâl o £19.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr**<br><br>• **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**<br><br>• **Cynnydd o 1.7% i £45.10 y dydd yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol (wedi'i dalgrynnu i'r £0.05 agosaf)**<br><br>• **Cynnydd o £1.73 yr awr mewn ffioedd Gofal Cartref er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd**<br><br>• **Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C yr adroddiad:**<br><br>• **Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i Oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.80**<br>• **Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.30**<br>• **Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.85** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn pennu'r ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau cymdeitheithasol di-breswyl yn y gymuned ar gyfer 2025/26** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |

| | |
|---|---|
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'n rhan o'r broses o osod y gyllideb sy'n cael ei phennu gan y Cyngor Llawn.** |